

100 mlynedd o Glenys Cour

Gwybodaeth am Glenys Cour.

Ganed Glenys yn Abergwaun yn 1924. Mae hynny'n golygu ei bod yn 100 mlwydd oed! Pan oedd Glenys yn yr ysgol, roedd hi eisiau bod yn gartwnydd. Rhoddodd ei thad lyfr nodiadau iddi, ac aeth hi ati'n frwd i'w lenwi â straeon a cherddi. Mae Glenys yn enwog am ei phaentiadau lliwgar o dirluniau, sydd wedi'u hysbrydoli gan forlinau Gŵyr ac Abertawe.

Cywir neu Anghywir?

Ganed Glenys yn 1924

Cywir

Anghywir

Roedd Glenys eisiau bod yn bêl-droediwr pan oedd yn iau

Cywir

Anghywir

"Lliw yw fy mywyd...gallwn i fwyta lliw"

Mission
Gallery

Gwybodaeth amdanaf i:

Mae gwaith celf Glenys yn dangos angerdd ac emosiwn. Defnyddiwech y gwagle hwn fel dyddiadur i ddisgrifio eich hoff liw, i rannu eich hoff atgofion, ac i nodi syniadau mawr ar gyfer y dyfodol – er mwyn i chi allu mynegi'r teimladau hyn o hapusrwydd a chyffro pan fyddwch chi'n dechrau tynnu llun.

"Erbyn i chi gyrraedd fy oedran i, mae fel dyddiadur o'ch profiadau," – Glenys Cour

Fy hoff liw yw ...

Pan fydda i'n hŷn,
rydw i eisiau bod yn...

Fy hoff atgof yw

Mission
Gallery

Amser Gweithgaredd: Tirluniau Emosiynol



Songs of renewal

Meddyliwch am eich hoff atgof. Oeddech chi ar eich gwyliau? Oeddech chi gartref? Oeddech chi'n teimlo'n gynnes neu'n oer? Allech chi ddefnyddio'r emosiynau hyn i ddewis eich lliwiau?

Ar ôl i chi ddewis lliwiau, llenwch y gwagle gan weithio mewn adrannau, byddwch yn feiddgar a pheidiwch â bod ofn gwneud llanast. Mae Glenys yn aml yn defnyddio ei bysedd i gymysgu lliwiau yn ei thirluniau.


""Rydw i wedi bod yn paentio tirluniau drwy gydol fy mywyd. Heb sylweddoli, rydych chi'n amsugno'r holl bethau o'ch cwmpas. Maen nhw bob amser yng nghefn eich ymennydd fel llyfrgell o syniadau"" - Glenys Cour



Amser Gweithgaredd: Blodau Chwedlonol



Gold Tinted Kings Daughter



Flower Dream

Casgliad o chwedlau a straeon o Gymru yw'r Mabinogi. Mae Glenys wedi cael ei hysbrydoli dro ar ôl tro gan stori Blodeuwedd, menyw a oedd wedi'i gwneud o flodau, wrth beintio ei gwaith celf.

Sylwch ar ansawdd breuddwydiol y blodau, faint o fanylion fyddech chi'n eu hychwanegu? Mae Glenys yn defnyddio llinellau du ysgafn i amlinellu ei blodau ac yn canolbwyntio ar ffurfiau'r blodau yn gyffredinol.

Gan ddefnyddio eich hoff liwiau, ewch ati i greu fâs o flodau eich hun. Byddwch yn feiddgar ac yn lliwgar! Torrwch siapiau o bapur a'u gludo mewn arddull collage, neu defnyddiwch basteli olew meddal i ychwanegu haenau o liw at eich gwaith celf.

